Yr Ysgwrn

# O’r Fferm i’r Fforc

**Uned o Waith yn canolbwyntio ar Feysydd Dysgu a Phrofiad. Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig mewn:**

**Iechyd a Lles**

Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**Her!**

**Dylunio dull o becynnu ar gyfer dal llaeth, menyn, wyau, caws neu lysiau / ffrwythau.**

Gelli di ystyried cryfder ac ymarferoldeb yn ogystal a sut mae’n edrych a sut mae’n cadw’r eitemau yn ffres.

Gelli di hefyd ystyried nodweddion amgylcheddol a sut mae lleihau’r defnydd o blastig ac egni cynhyrchu.

## CYFLWYNIAD

Uned sy’n edrych ar y math o fwyd y byddai teulu Hedd Wyn wedi ei fwyta; sut oedd yn cael ei dyfu, ei gynhyrchu a’i gadw a chymharu hyn â’n bwyd ni heddiw.

Datblygir Iechyd a Lles drwy edrych ar ddeiet, grwpiau bwyd a bwydlen diwrnod yn oes Hedd Wyn a’i cymharu â heddiw. Gellir hefyd edrych ar sut mae hyn yn ei dro yn effeithio ansawdd bywyd, iechyd ac effeithiau amgylcheddol.

Drwy edrych ar yr ochr Gwyddoniaeth a Thechnoleg gellir cymharu anghenion a dulliau pecynnu bwyd yn oes Hedd Wyn a heddiw. Bydd hefyd yn rhoi’r cyfle i ddisgyblion ddatblygu meddylfryd dylunio a pheirianneg wrth iddynt ddylunio pecynnu fydd yn diwallu anghenion cymdeithas heddiw, yn ymarferol ac yn amgylcheddol.

## GWEITHGAREDDAU POSIBL:

### Iechyd a Lles

- Edrych ar ddeiet Hedd Wyn a'i deulu ymhob un o'r 5 prif grŵp bwyd (gwybodaeth ar y Mat) Ystyried oedd yn ddeiet cytbwys? Oedd yn ddeiet iach? Oedd yn ddeiet tymhorol? Beth oedd effaith hyn ar ansawdd bywyd ac iechyd y teulu? Beth oedd effaith hyn ar yr amgylchedd?
- Edrych ar ddeiet cyfoes (go iawn neu ddychmygol) a gofyn yr un cwestiynau.
- Edrych ar Fwydlen Diwrnod Teulu'r Ysgwrn 1912 (ar y mat) a chymharu hwn gyda bwydlen gyfoes. Pa mor amrywiol yw'r bwyd? Pa mor iach yw'r bwyd? Ydi o'n cynnwys bwyd o'r grwpiau gwahanol? Sut effaith byddai bwyd fel hyn yn ei gael yn yr hir-dymor? Sut fyddai'r deiet yn effeithio'r amgylchedd?

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Edrych ar y lluniau o'r arteffactau o gegin fach Yr Ysgwrn (ar y mat) neu drefnu ymweliad â'r Ysgwrn i'w gweld. Trafod ac ymchwilio i'w pwrpas a'u defnydd ac ystyried pa mor effeithiol oeddynt. Beth yw manteision ac anfanteision defnyddio y rhain ar gyfer cynhyrchu, storio a chadw bwyd yn ffres?
- Ymchwilio i ddulliau cyfoes o gynhyrchu a phecynnu bwyd. Beth yw effaith amgylcheddol gwastraff plastig? Beth yw effaith amgylcheddol mewnforio a chynhyrchu bwyd ar raddfa?Faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a beth sy'n digwydd iddo?
- Ymchwilio i atebion i'r problemau cyfoes o gynhyrchu a phecynnu bwyd e.e bwyta bwyd lleol, bwyta bwyd tymhorol, dulliau amgen o becynnu bwyd.
- Arbrofi gyda deunyddiau gwahanol i archwilio eu nodweddion e.e Ydyn nhw'n gryf? Ydyn nhw'n wrth-ddwr? Ydyn nhw'n pydru? Ydyn nhw'n drwm/ysgafn? Meddwl am ymchwiliau neu arbrofion gwyddonol i archwilio hyn a rhagfynegi canlyniadau.
- Dylunio a gwneud dull o becynnu ar gyfer bwyd o'ch dewis gan ystyried y ffactorau a nodwyd.

## MEYSYDD ERAILL

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Dawns. Creu dawns wedi ei seilio ar symudiadau cynhyrchu bwyd yn yr Ysgwrn, e.e corddi, halltu, siapio menyn, hongian cig, troi y cawl, codi tatws, casglu afalau.
- Drama. Creu lluniau llonydd o fywyd ar fferm yr Ysgwrn. Ychwanegu deialog i greu sgript neu waith byrfyfyr.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Creu set o gyfarwyddiadau ar gyfer gwneud bwyd yn yr Ysgwrn e.e sut i gorddi menyn, sut i wneud potes, sut i blannu a chynhaeafu tatws.
- Ysgrifennu dyddiadur un o deulu'r Ysgwrn gan ddisgrifio agwedd o gynhyrchu bwyd e.e lladd mochyn, hel mwyar duon.
- Casglu neu greu ryseitiau ar gyfer defnyddio llysiau o'r ardd.
- Perswadio eraill i ystyried eu heffaith ar yr amgylchedd wrth ddewis a phrynu bwyd ac annog llai o ddefnydd o blastig, bwyta'n lleol neu fwyta'n dymhorol.

### Mathemateg a Rhif

- Archwilio cynhwysedd. Faint o laeth oedd mewn 'churn' yn amser HW? Faint o laeth sydd mewn poteli llaeth heddiw? Beth yw'r unedau mesur? Sut mae newid o alwyni a pheintiau i litrau a ml?
- Edrych ar filltiroedd bwyd. Canfod pellteroedd mewnforio o India, Ynysoedd y Caribi, De America neu Affrica. Canfod milltiroedd bwyd bananas neu afocados. Cymharu milltiroedd bwyd wrth fwyta mefus yn eu tymor neu yn y gaeaf.

### Dyniaethau

- Edrych ar wefan Casgliad y Werin a Sain Ffagan i ymchwilio i sut oedd ffermio, cynhyrchu, pecynnu neu werthu bwyd mewn gwahanol gyfnodau a lleoliau yng Nghymru.
- Edrych ar wefan Masnach Deg, Oxfam neu Cymorth Cristnogol i edrych ar ffermio a chynhyrchu bwyd mewn gwledydd sy'n datblygu e.e tyfu bananas, cnau coco neú ffa coffi.
- Edrych ar sut mae ffermio ar raddfa fawr yn newid tirwedd, difrodi cynefinoedd a niweidio'r amgylchedd e.e ffermio cig eidion, tyfu palmwydd ar gyfer olew neu dyfu soya ar gyfer bwydo anifeiliaid.